

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod Blyneddol 31/05/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad)	David Andrew Parry	Alan Harper-Smith	Greta Hughes
William Penri Jones	Ian Goronwy Williams	Gwenllian Hughes	Claire Russell Griffiths
Thomas Victor Jones	Ann Llwyd (Cyfieithydd)	Pat Humphreys (Clerc)	

Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19

Gofynnodd y cadeirydd i bawb pan nad ydynt yn siarad i roi eu hunain ar 'mute' gan ei fod yn amharu ar y cyfieithydd a phan fydd rhywun eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llawn i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Mae John Brinley Jones yn gadeirydd ers mis Medi ac yn fodlon cario ymlaen am flwyddyn arall. Cafwyd cynnig gan William Penri Jones i John Brinley Jones gario ymlaen fel cadeirydd ac eiliwyd y cynnig gan Ian Goronwy Williams.

Cafwyd gwelliant ar y cynnig gan Claire Russell Griffiths yn cynnig Greta Hughes fel cadeirydd ac eiliwyd y gwelliant gan Alan Harper Smith.

Mae Greta Hughes yn datgan ei bod yn flodlon hefo'r cynnig.

Cafwyd pleidlais ar y cynnig i Greta Hughes fod yn gadeirydd:

O blaid: 4 Yn erbyn: 5

Gan fod y gwelliant wedi methu cafwyd pleidlais ar y cynnig cyntaf i John Brinley Jones barhau fel cadeirydd:

O blaid: 5 Yn erbyn: 4

Pasiwyd i John Brinley Jones barhau fel cadeirydd a diolchodd i'r 5 a bleidleisiodd drosto.

Cynnigiodd William Penri Jones i Andrew Parry barhau fel Is-gadeirydd ac eiliwyd y cynnig gan Ian Goronwy Williams.

Cafwyd pleidlais, a gyda 7 o blaid fe basiwyd y cynnig i Andrew Parry barhau fel Is-gadeirydd.

2. Dogfennau'r Cyngor i'w adolygu a'u pasio

Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Polisi Iaith, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Ffioedd Claddu, Rheolau'r Mynwentydd, Asesiad Risc, Côt Ymddygiad Aelodau, Trefn Cwyno a Rhestr Asedau
Mae pawb wedi cael copi o'r dogfennau i gyd ers mis diwethaf er mwyn cael cyfle i edrych drostynt a cael eu pasio y mis yma.

Cafwyd cynnig gan Claire Russell Griffiths i newid y Rheolau Ariannol fel bod y clerc ddim yn cael arwyddo sieciau o hyn allan, ac mae Greta Hughes yn cytuno mai dim ond y Cynghorwyr sydd i fod i arwyddo sieciau.

Penderfyniad: Pasiwyd i newid y Rheolau Ariannol i 3 Cynghorydd i arwyddo sieciau o hyn allan ac i roi enw Claire Russell Griffiths fel y trydydd cynghorydd i arwyddo'r sieciau.

Cynnig: Andrew Parry Eilio: Greta Hughes

Penderfyniad: Pasiwyd y polisiau a'r dogfennau i gyd a gwneud y newidiadau i'r Rheolau Ariannol a'i fod yn weithredol o hyn allan.

Cynnig: Andrew Parry Eilio: William Penri Jones

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Blyneddol 31/05/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Gofynnod Andrew Parry os cafodd y clerc hyd i'r gweithredoedd oherwydd ei fod yn dweud yn yr Asesiad Risc fod y gweithredoedd i gyd i gael eu cadw gan gyfreithiwr y Cyngor sef Robyns Owen a'i Fab, 36 Stryd Fawr, Pwllheli. Dywedodd y clerc ei bod hithau wedi sylwi ar hyn yn yr Asesiad Risc ac wedi cysylltu hefo Ieuan Ellis Owen a bod y gweithredoedd ganddynt a'i fod am wneud rhestr o'r holl weithredoedd a'i anfon i'r clerc.

Cofnodion Cyfarfod 31/05/2021 7:00yh – O Bell – COVID-19

1. Ymddiheuriadau

William Roger Jones.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

John Brinley Jones – cais cynllunio Oriel Plas Glyn y Weddw.

3. Cofnodion Pwyllgor 26/04/2021

Cafwyd cais i ychwanegu fod un pleidlais wedi ei ymatal i rif 9 ar yr agenda.

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: Andrew Parry Eilio: Ian Goronwy Williams

Diolchodd y cadeirydd i Gwenllian Davenport Hughes am gyfieithu'r cofnodion a'r agenda.

4. Unrhyw Fater Brys

Dim.

5. Awdit 2020-2021

Cafwyd diweddariad gan y clerc ar y sefyllfa. Oherwydd nad oedd datganiadau banc cyfrif Nat West ddim gan y clerc ac nid oedd ganddi fynediad i'r cyfrif 'roedd yn rhagweld oediad i gwblhau'r ffurflen flynyddol i'r archwilwyr mewnol ond ar ôl siarad hefo aelod o staff Nat West mae hi wedi awgrymu ordro datganiadau banc am y flwyddyn 2020-2021 ac i rhywun eu nôl o dy John Harris y cyn glerc, dyma'r unig ffordd i gael y datganiadau er mwyn medru cario ymlaen gyda'r archwiliad mewnol mewn amser. Cytunodd y cadeirydd i nôl y datganiadau banc unwaith y byddent wedi cyrraedd Henllys Isaf.

6. Taliadau 2018-2019 & 2019-2020 & 2020-2021

Ni dderbyniwyd adroddiad ar y taliadau na gwybodaeth ychwanegol arnynt felly nid oes modd trafod y mater yma.

7. Cyfieithu

Fe gysylltodd y clerc gyda dau enw a gafwyd eu cynnig y mis dwethaf fel cyfieithwyr i gyfieithu y cofnodion a'r agenda sef Ruth ab Ieuan ac Eleri Llewelyn Morris ond yn anffodus nid ydynt yn cyfieithu dogfennau ddim mwy. Yn y cyfamser derbyniwyd pris gan Ann Llwyd Williams ar gyfer cyfieithu'r cofnodion a'r agenda sef £50 am 1,000 o eiriau ac er mwyn cael pris arall fe gysylltodd y clerc gyda cwmni Cymen a'u pris nhw oedd £85 am rhwng 501 – 1,000 o eiriau. Mae'r clerc wedi

Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod Blyneddol 31/05/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

cael gwybodaeth ynglŷn â'r sianel gyfieithu ar zoom hefyd ac fe fyddai hynny yn costio £32 y mis i'w dalu drwy debyd uniongyrchol.

Penderfyniad: Pasiwyd yn unfrydol i gynnig y gwaith cyfieithu i Ann Llwyd Williams ac i beidio cael y sianel gyfieithu ar zoom ar hyn o bryd gan fod Alan ac Ann yn hapus hefo'r trefniadau cyfieithu sydd ganddynt ac hefyd gyda'r gobaith y bydd y Cyngor Cymuned yn cael dechrau cyfarfod wyneb yn wyneb yn y Neuadd yn y dyfodol agos.

Cynnig: William Penri Jones Eilio: Andrew Parry a Alan Harper Smith

8. Llwybrau

Mae'r cadeirydd wedi bod yn trio cael gafael yn Stuart Livingstone ers mis bellach i drefnu cyfarfod hefo fo i drafod y gwaith angenrheidiol sydd angen cael ei wneud yn y pentref. Mae Stuart wedi bod yn hynod o brysur ond mae'r cadeirydd wedi llwyddo i drefnu cyfarfod hefo fo nos Fercher nesaf felly gobeithio y bydd y gwaith yn cychwyn yn fuan wedi'r cyfarfod.

Mae Andrew Parry wedi gyrru lluniau o'r step ar y giat fochyn ar llwybr zig zag i'r clerac ac yn gofyn os y caiff hyn fod yn flaenoriaeth ar restr waith Stuart Livingstone gan ei fod yn berig iawn i'r cyhoedd, mae'r cadeirydd am ddweud wrtho nos Fercher i wneud y gwaith yma yn gyntaf.

9. Y Fynwent

Nid yw Stuart Livingstone wedi cychwyn ar y gwaith ar wal y fynwent chwaith ond hyderir y bydd yn cychwyn ar ôl cyfarfod y cadeirydd nos Fercher nesaf.

Cafwyd diweddariad gan y clerac ar y sefyllfa newid enwau ar y gweithredoedd gan Swyddfa Bryn Martin. Mae swyddfa Bryn Martin wedi anfon bob dim i'r swyddfa gofrestru ond maent yn araf iawn yn delio gyda ceisiadau fel hyn ar hyn o bryd. Mae'r clerac wedi cael y ddau dystysgrif marwolaeth yn ôl ganddynt ac am eu cadw rhag ofn y bydd Nat West eu hangen i newid y 'mandate'.

10. Cae Chwarae

Cafwyd diweddariad gan y cadeirydd, mae'r ffens wrth ymyl y giat angen ei thrwsio ond nid yw Stuart Livingstone wedi bod yno hyd yn hyn ond gobeithio y bydd yn cychwyn ar y gwaith ar ôl cyfarfod nos Fercher a tydi'r arwyddion ddim wedi cael eu rhoi fyny hyd yn hyn chwaith ond mi fydd y cadeirydd yn eu rhoi i Stuart Livingstone nos Fercher.

Mae Andrew Parry wedi bod mewn cysylltiad hefo Wicksteed i gael archwiliad o offer y cae chwarae ac mae'r clerac wedi derbyn archeb ar gyfer 'accompanied inspection' ar y 19^{eg} o Orffennaf 2021, nid oes amser ar yr archeb felly gan mai manylion Andrew Parry sydd ganddynt hyderir y byddant yn cysylltu cyn y dyddiad i drefnu amser.

Cafwyd manylion gan Claire Russell Griffiths fod y plant wedi torri'r ffens newydd yr ochor arall i'r cae chwarae ac yn mynd lawr yr ochor hefo beics i lôn Abersoch sydd yn berig bywyd, addawodd y cadeirydd fynd i ddangos hyn i Stuart Livingstone nos Fercher.

Cafwyd gwybodaeth gan Rhys Jones sy'n torri'r cae chwarae fod rhywbeth tebyg i 'japanese knotweed' yn tyfu yn y cae chwarae, mae'r cadeirydd am gysylltu hefo Rhys Jones i fynd i'w weld.

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod Blyneddol 31/05/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Dyweddodd Alan Harper Smith fod 'japanese knotweed' yn tyfu ar Lôn Pin hefyd wrth ymyl Wern Fawr ar y chwith, ond mae'n rhaid ffendio allan os mai'r tir feddiannwr sydd yn gyfrifol neu Cyngor Gwynedd yn y fan yna.

11. Sedd Wag

Ni dderbyniwyd ceisiadau ar gyfer y sedd wag er bod y clerc wedi cael un galwad yn holi amdani ac mae Ian Goronwy Williams wedi cael rhywun yn dangos diddordeb.

Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i Ian Goronwy Williams i ofyn i'r person sydd wedi dangos diddordeb i yrru llythyr neu ebost i'r clerc yn rhoi ei enw ymlaen.

Cynnig: William Penri Jones Eilio: Thomas Victor Jones

12. Coronavirus covid-19 – Diweddariad & Polisi Iechyd a Diogelwch

Dim diweddariad – cario mlaen i ddefnyddio Zoom oherwydd nid oes cyfarwyddyd wedi ei dderbyn ynglŷn â cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol agos.

13. Neuadd y Pentref – Diweddariad

Dim.

Ceisiadau Cynllunio

C21/0452/38/LL – Woodcroft, Llanbedrog – Dymchwel byngalo presennol ac adeiladu annedd newydd gan gynnwys anecs.

Penderfyniad: Gwrthod – gor-ddatgiblygiad o'r safle, pryder ynglŷn â system carthffosiaeth anaddas, ffordd anaddas i'r tai, a'r ymgeisydd wedi mynd yn groes i argymhelliad yr adran gynllunio yn y 'pre-application advice service' ac wedi anwybyddu'r Cyngor yn llwyr.

C21/0464/38/CC – Glynllifon, Llanbedrog – Cais ar gyfer gwaith i goed wedi eu gwarchod o dan Gorchymyn Gwarchod Coed

Penderfyniad: gadael i'r Swyddog Coed a'r Adran Cynllunio ddelio hefo'r cais.

C21/0484/38/AM – Cyn toiledau cyhoeddus Cae Hendy, Llanbedrog – Adnewyddu caniatad cynllunio cyf: C16/0490/38/AM ar gyfer codi un tŷ annedd.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Gan fod y cadeirydd wedi datgan buddiant ariannol neu bersonol ar gais cynllunio Oriol Plas Glyn y Weddw mae'n gadael y cyfarfod cyn trafod y cais.

C21/0442/38/RA – Oriol Plas Glyn y Weddw – Rhyddhau amod rhif 3 (cofnod ffotograffig) ar ganiatadau rhif C19/0670/38/CR ac C19/0672/38/LL

Penderfyniad: y clerc i anfon gwybodaeth ynglŷn â amod rhif 3 i bawb ond y cadeirydd er mwyn iddynt gael gwneud penderfyniad.

Taliadau wedi eu Cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	£366.73
Ann Llwyd – Cyfieithydd	£70.00
Cyngor Gwynedd – casglu gwastraff gardd am 2019	£39.60

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 31/05/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Taliadau wedi eu Derbyn

Cyngor Gwynedd – Praesept	£11,250.00
HMRC – Ad-daliad TAW 2020-2021	£1,110.16

Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Un Llais Cymru** – Hyfforddiant
3. **CLILC** - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. **Llywodraeth Cymru** - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. **GIG** - AP Covid-19
6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
7. **Llywodraeth Cymru** - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
8. **CLILC** - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr Medi 2020
11. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am clyw
13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

Cais am gyfraniad

1. **Macmillan Cancer Support** – cais am gyfraniad ariannol

Cafwyd gwybodaeth gan Thomas Victor Jones yn dweud fod yna arian ar ôl gan y Pwyllgor AHNE Llŷn ar gyfer grantiau a bod angen rhoi cais i fewn cyn gynted a bo'r modd, ac mae Ian Goronwy Williams am basio'r neges ymlaen i Bwyllgor Cae Chwarae.

Gofynnodd Claire Russell Griffiths os oedd modd cael arian o'r grantiau yma ar gyfer gwneud mwy o'r pamffledi ar yr ardal fel y gwnaethpwyd o'r blaen a dywedodd Andrew Parry bod yna ddipyn o'r pamffledi yma ar ôl yn y neuadd ac addawodd fynd i chwilio amdanynt.

Mae Andrew Parry hefyd yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â unrhyw un sydd yn cynnig gwersi dysgu Cymraeg ar gyfer y Ship yn Llanbedrog ac mae Greta Hughes wedi rhoi manylion i Andrew Parry o rhywun yn lleol sydd yn gwneud hyn.

Is-gadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.00y.h